| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Cyfleoedd Cyfartal - Meithrinfa Toybox |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 2 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Myfyrwyr, meithrinfa, staff, rhieni a phlant |

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Asesiad effaith / Impact assessment* |
| *Effaith ar y Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

## Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

<table>
<tr><td>Perchennog y Ddogfen:<br>Document Owner:</td><td colspan="3">Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager</td></tr>
<tr><td>Ymgynghoriad/<br>Consultation:</td><td colspan="3">Staff y Feithrinfa</td></tr>
<tr><td rowspan="6">Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved</td><td colspan="2">Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group</td><td>-</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant /<br>Communications & Culture Committee:</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Pwyllgorau'r Bwrdd /<br>Board Committees:</td><td>Pwyllgor Archwilio a Risg /<br>Audit & Risk Committee:</td><td>-</td></tr>
<tr><td>Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau /<br>Curriculum & Standards Committee</td><td>-</td></tr>
<tr><td>Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant /<br>Finance, People & Culture Committee:</td><td>Dyddiad i'w gadarnhau</td></tr>
<tr><td colspan="2">Corff Llywodraethu / Governing Body:</td><td>-</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Adolygu:<br>Review Date:</td><td colspan="3">15/01/2028</td></tr>
</table>

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**Tabl Cynnwys**

**Cyfle Cyfartal**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Datganiad o Fwriad | 2 |
| 2. | Darpariaeth gwasanaeth / derbyniadau | 3 |
| 3. | Staff | 3 |
| 4. | Hyfforddiant | 3 |
| 5. | Fframwaith dysgu cynnar | 4 |
| 6. | Gwybodaeth a chyfarfodydd | 4 |


1. **Datganiad o fwriad**

1.1. Mae'r feithrinfa'n cymryd gofal mawr i drin pob unigolyn fel unigolyn ynddo'i hun, gyda hawliau a chyfrifoldebau cyfartal ag unrhyw unigolyn arall, p'un a ydynt yn oedolyn neu'n blentyn. Mae'r feithrinfa wedi ymrwymo i ddarparu cydraddoldeb cyfleoedd ac arferion gwrth-wahaniaethol i blant a theuluoedd yn ôl eu hanghenion unigol. Nid oes lle yn y feithrinfa hon i wahaniaethu ar sail rhywedd, oedran, hil, crefydd neu gred, priodas neu bartneriaeth sifil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, tras ethnig neu genedlaethol.

1.2. Bydd ymrwymiad i weithredu ein polisi cynhwysiant a chydraddoldeb yn rhan o ddisgrifiad swydd pob gweithiwr. Pe byddai unrhyw un yn credu nad yw'r polisi hwn yn cael ei gynnal, mae'n ddyletswydd arnynt i roi gwybod i Reolwr y Feithrinfa cyn gynted â phosibl. Cymerir camau priodol i archwilio'r mater ac os oes sail dda i bryderon o'r fath, bydd camau disgyblu yn cael eu gweithredu o dan bolisi disgyblu'r feithrinfa.

2. Mae fframwaith cyfreithiol ar gyfer y polisi hwn yn seiliedig ar y canlynol:

2.1. Deddf Cydraddoldeb 2010
2.2. Deddf Plant 2004
2.3. Deddf Safonau Gofal 2002
2.4. Deddf Gofal Plant 2006
2.5. Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001.

3. Rydym yn ymwybodol o'r arfer da gwrthwahaniaethol a nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

3.1.1. Deddf Cydraddoldeb 2010: canllawiau - GOV.UK
3.1.2. Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru - LLYW.CYMRU
3.1.3. Gweithredu ar anabledd: fframwaith a chynllun gweithredu'r hawl i fyw'n annibynnol - LLYW.CYMRU
3.1.4. Cynllun Gweithredu LGBTQ+ i Gymru - LLYW.CYMRU

4. Mae'r feithrinfa a'r staff wedi ymrwymo i:

4.1. Recriwtio, dethol, hyfforddi a hyrwyddo unigolion ar sail gofynion sgiliau galwedigaethol. Yn y modd hwn, bydd y feithrinfa yn sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd swydd na gweithiwr yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd oedran, rhyw, ailbennu rhywedd, anabledd, priodas neu bartneriaeth sifil, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth na ellir ei gyfiawnhau fel rhywbeth sy'n angenrheidiol ar gyfer perfformiad diogel ac effeithiol eu gwaith neu hyfforddiant.

4.2. Darparu lle gofal plant, lle bo hynny'n bosibl, i blant a allent fod ag anableddau/anawsterau dysgu neu'n cael eu hystyried dan anfantais yn ôl eu hamgylchiadau unigol, a gallu'r feithrinfa i ddarparu'r safon angenrheidiol o ofal.

4.3. Gwneud newidiadau rhesymol i blant gydag anableddau ac anghenion addysgol arbennig

4.4. Ymdrechu i hyrwyddo mynediad cyfartal i wasanaethau a phrosiectau trwy weithredu'n ymarferol (lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn rhesymol), fel sicrhau mynediad i bobl gydag anghenion

ychwanegol a thrwy lunio deunyddiau mewn cyfryngau ac ieithoedd perthnasol i'r holl blant a'u teuluoedd

4.5. Darparu amgylchedd diogel y gall ein holl blant ffynnu ynddo ac mae pob cyfraniad yn cael eu gwerthfawrogi

4.6. Cynnwys a gwerthfawrogi cyfraniadau pob teulu i'n dealltwriaeth cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth

4.7. Darparu gwybodaeth gadarnhaol nad yw'n stereoteip

4.8. Gwella ein gwybodaeth ac ein dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth yn barhaus

4.9. Adolygu, monitro a gwerthuso'n rheolaidd effeithiolrwydd arferion cynhwysol i sicrhau eu bod yn hyrwyddo ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth a gwahaniaethu a bod y polisi'n effeithiol a bod arferion yn wrth-wahaniaethol

4.10. Gwneud cynhwysiant yn llinyn sy'n rhedeg trwy'r feithrinfa gyfan, er enghraifft, trwy annog modelau rôl cadarnhaol trwy ddefnyddio teganau, chwarae dychmygol a gweithgareddau, hyrwyddo delweddau ac iaith an-ystrydebol a herio'r holl ymddygiad gwahaniaethol (gweler y polisi delio ag ymddygiad gwahaniaethol).

5. Darpariaeth gwasanaeth / derbyniadau

5.1. Bydd y feithrinfa'n hygyrch i'r holl blant a theuluoedd yn y gymuned leol ac ymhellach trwy bolisi derbyniadau cynhwysfawr a chynhwysol.

5.2. Bydd y feithrinfa yn ymdrechu i sicrhau bod pob gwasanaeth a phrosiect yn hygyrch ac yn berthnasol i bob grŵp ac unigolyn yn y gymuned yn y grwpiau oedran a dargedir.

6. Staff

6.1. Mae'n bolisi gan Feithrinfa Toybox i beidio â gwahaniaethu wrth drin unigolion. Disgwylir i staff gydweithio â gweithredu, monitro a gwella'r polisi hwn a pholisïau eraill. Disgwylir i staff herio iaith, gweithredoedd, ymddygiadau ac ymddygiadau sy'n ormesol neu wahaniaethol ar y seiliau a nodir yn y polisi hwn, a chydnabod a dathlu diwylliannau a thraddodiadau eraill. Disgwylir i staff gymryd rhan mewn hyfforddiant cydraddoldeb a chynhwysiant.

6.2. Bydd staff yn dilyn y polisi chwythu'r chwiban lle bo hynny'n berthnasol i roi gwybod am unrhyw ymddygiadau gwahaniaethol a welir.

7. Hyfforddiant

7.1. Mae'r feithrinfa'n cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant fel ffactor allweddol wrth weithredu polisi cynhwysiant a chydraddoldeb effeithiol. Mae pob aelod newydd o staff yn cael hyfforddiant ymsefydlu gan gynnwys cyfeiriad penodol at y polisi cynhwysiant a chydraddoldeb. Bydd y feithrinfa yn ymdrechu i ddarparu hyfforddiant cynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth i'r holl staff yn flynyddol.

8. Fframwaith dysgu cynnar

8.1. Mae'r cyfleoedd dysgu cynnar a gynigir yn y feithrinfa i annog plant i feithrin agweddau cadarnhaol at bobl sy'n wahanol iddynt. Mae'n annog plant i empatheiddio gydag eraill ac i ddechrau datblygu sgiliau meddwl yn feirniadol.

8.2. Rydym yn gwneud hyn drwy:

8.2.1. Wneud i blant deimlo'n werthfawr ac yn dda amdanynt eu hunain

8.2.2. Sicrhau bod gan blant fynediad cyfartal at ddysgu cynnar a chwarae

8.2.3. Adlewyrchu'r ystod ehangaf bosibl o gymunedau wrth ddewis adnoddau

8.2.4. Osgoi delweddau ystrydebol neu fychanol wrth ddewis deunyddiau

8.2.5. Cydnabod a dathlu ystod eang o grefyddau, credoau a gwyliau

8.2.6. Creu amgylchedd o barch ac empathi at ein gilydd

8.2.7. Helpu plant i ddeall bod ymddygiad a sylwadau gwahaniaethol yn annerbyniol

8.2.8. Sicrhau bod pob cyfle dysgu cynnar a gynigir y cynnwys plant gydag anawsterau dysgu a/neu anableddau a phlant o gefndiroedd dan anfantais

8.2.9. Sicrhau bod plant nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn cael mynediad llawn at gyfleoedd dysgu cynnar ac yn cael eu cefnogi yn eu dysgu

8.2.10. Gweithio mewn partneriaeth â phob teulu i sicrhau eu bod yn deall y polisi a herio unrhyw sylwadau gwahaniaethol a wneir

8.2.11. Sicrhau bod anghenion meddygol, diwylliannol a deietegol plant yn cael eu diwallu

8.2.12. Helpu plant i ddysgu am ystod o fwyd a dulliau diwylliannol at brydau bwyd ac i barchu'r gwahaniaethau rhyngddynt.

9. Gwybodaeth a chyfarfodydd

9.1. Rhoddir gwybodaeth am y feithrinfa, ei gweithgareddau a datblygiad plant mewn amrywiaeth o ffyrdd yn ôl anghenion unigol (ysgrifenedig, llafar ac wedi ei chyfieithu), i sicrhau bod yr holl rieni'n gallu gweld y wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

9.2. Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu i roi dewis i'r teuluoedd ddod a chyfrannu eu syniadau am redeg y feithrinfa.

9.3. Bydd Meithrinfa Toybox yn sicrhau bod pawb yn y gymuned yn gallu gweld gwybodaeth am y grŵp trwy roi gwybodaeth i'r adran gwasanaethau myfyrwyr yn y coleg, ymwelwyr iechyd a gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd.

9.4. Mae plant yn unigolion yn eu rhinwedd eu hunain a dylid eu trin yn unol â hynny ac ni fyddant yn cymharu â'i gilydd.